

ECAD5013/C: Sut mae fy narlithoedd yn cysylltu gyda fy aseiniad?

Defnyddiwch y cynllun hwn, os dymunwch, ochr yn ochr â'r holl ddeunyddiau a roddwyd i chi ynglŷn â'r aseiniad a rhwch sylw penodol i fanyleb yr aseiniad a holl nodau'r modiwl. Gall **S2 – 'Sut byddaf yn cael fy asesu?'** fod yn ddefnyddiol.

Ar ddechrau'r aseiniad, mae'n rhaid i chi gynnwys:

1. Eich targedau blaenorol a sut rydych wedi mynd i'r afael â nhw yn yr aseiniad hwn.
2. Datganiad Deallusrwydd Artiffisial (DA/AI) yn dweud os ydych wedi defnyddio DA neu beidio.

Cyflwyniad – Sleid 14 o'r cyflwyniad PowerPoint arweiniad aseiniad – tua 250 o eiriau

Sesiynau medrwch gyfeirio atynt:

- **S3** – 'Ble ydw i'n addysgu? Ffocws ar gymuned.' Beth yw cyd-destun yr ysgol a'r gymuned o'ch dewis? Sut mae cymuned yn cael ei diffinio? Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei ddweud am bwysigrwydd a nodweddion allweddol gweithio rhwng y gymuned a'r ysgol?
- **S5** – 'Ble ydw i'n addysgu? Ffocws ar ysgolion.' Beth yw gweledigaeth eich ysgol? Sut mae cynnig eich prosiect yn berthnasol i hyn?

Literature review – Slide 15 o'r cyflwyniad PowerPoint arweiniad aseiniad – approx. 800 words

Sesiynau medrwch gyfeirio atynt:

- **S3** – 'Ble ydw i'n addysgu? Ffocws ar gymuned.' Efallai y gallech gyfeirio at astudiaethau achos sydd wedi dylanwadu ar eich dewis o ffocws ar gyfer eich cynnig prosiect.
- **S5** – 'Ble ydw i'n addysgu? Ffocws ar ysgolion.' Sut mae cynnig eich prosiect yn cefnogi 'cwrwclwm hygyrch i bawb? Beth mae'n ei wneud i ddiwallu anghenion y dysgwyr, yr ysgol a'r gymuned? A yw'n ymwneud â syniadau sy'n cwmpasu Cynefin? Sut mae'n cefnogi egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol? Beth mae'r llenyddiaeth yn ei ddweud i gefnogi hyn? Pa bolisiâu a blaenoriaethau addysg Llywodraeth Cymru a allai fod wedi dylanwadu ar eich dewis o ffocws ar gyfer eich cynnig prosiect, e.e. gwrth-hiliaeth, y Gymraeg, addysg gynhwysol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, agweddau penodol ar Gwricwlwm i Gymru?
- **S6, 7 & 8** – 'Cyd-destunau go iawn, dilys.' Pam, yn ôl llenyddiaeth, mae cyd-destunau dilys bywyd go iawn yn bwysig? Ar ba gyd-destunau dilys y mae cynnig eich prosiect yn canolbwyntio, a pham? Pa agwedd ar ddysgu disgyblion / Maes Dysgu a Phrofiad yng Nghwricwlwm i Gymru yw ffocws eich cynnig prosiect a pham ei fod yn bwysig yn ôl y llenyddiaeth?
- **S9, 10 & 11** – 'Ble ydw i'n addysgu? Ffocws ar ddysgwyr.' Sut mae cynnig eich prosiect yn hyrwyddo cynhwysiant a pherthyn rhwng yr ysgol a'r gymuned? Pam ei fod yn gwneud hyn? Beth mae llenyddiaeth yn ei ddweud am bwysigrwydd cynhwysiant a pherthyn?

Awgrym: Gallai fod yn syniad da rhannu'r adolygiad llenyddiaeth yn gyfartal rhwng syniadau'n ymwneud â phwysigrwydd gweithio rhwng y gymuned a'r ysgol, a'r ffocws a ddewiswyd gennych ar gyfer eich cynnig prosiect.

Cofiwch: Er eich bod yn ceisio argyhoeddi'r Pennaeth/Bwrdd Llywodraethwyr/Rhanddeiliaid Eraill bod eich cynnig yn ddull cadarnhaol o fynd i'r afael â'r materion rydych yn ffocysu arnynt, mae angen i chi ystyried gwrthddadleuon hefyd fel eich bod yn dangos lefel briodol o feirniadaeth yn eich ysgrifennu.

Nodau, amcanion ac ystyriaethau ymarferol – Sleid 16 o'r cyflwyniad PowerPoint arweiniad aseiniad – tua 500 o eiriau

Sesiynau medrwch gyfeirio atynt:

- **S5** – 'Ble ydw i'n addysgu? Ffocws ar ysgolion.' Gall cynnig eich prosiect fod yn ymwneud â grŵp o ddysgwyr neu thema a archwiliwyd yn y sesiwn hon, e.e. Du, Asiaidd, Lleiafrifoedd Ethnig, Mwyafrif Byd-eang, Sipsiwn, Roma, Teithwyr. Os felly, beth ydych chi'n disgwyl y bydd effaith eich prosiect ar y dysgwyr hyn a'r gymuned ehangach?

ECAD5013/C: Sut mae fy narlithoedd yn cysylltu gyda fy aseiniad?

- **S9,10 & 11** – ‘Ble ydw i’n addysgu? Ffocws ar ddysgwyr.’ A allai nodau ac amcanion eich prosiect fod yn seiliedig ar faterion yn ymwneud â hygyrchedd, perthnasedd a chynhwysiant y cwricwlwm? Sut mae cynllunio cynhwysol yn cael ei ddiffinio?
- **S12 & 13** – ‘Beth yw’r cyfleoedd a’r rhwystrau i ymgysylltu ag ysgolion a’r gymuned?’ A yw eich prosiect yn ceisio goresgyn unrhyw rwystrau penodol? Pa rai? Pam? Sut?

Mesur effaith – Sleid 17 o’r cyflwyniad PowerPoint arweiniad aseiniad – tua 500 o eiriau

Sesiynau medrwrch gyfeirio atynt:

- **S3** – ‘Ble ydw i’n addysgu? Ffocws ar gymuned.’ Efallai y gallech gyfeirio at astudiaethau achos sydd wedi dylanwadu ar eich dewis o ffocws ar gyfer eich cynnig prosiect a chymhwyso eu dulliau ar gyfer mesur effaith i’ch cynnig prosiect chi. Efallai y byddwch yn dod o hyd i astudiaethau achos eraill i ddarganfod pa dulliau a ddefnyddiwyd yno. Cyfeirnodwch unrhyw ddeunyddiau a ddefnyddiwyd i gefnogi’ch gwaith!

Yn ddisgwyliedig: Os ydych yn bwriadu defnyddio holiaduron neu gyfweiliadau gyda disgyblion, rhieni a rhanddeiliaid eraill, cofiwch gadw at ystyriaethau moesegol (meddyliwch am eich modiwlau ymchwil ECAD4010/C & ECAD5014/C a chanllawiau BERA. Mae'r rhain bellach wedi'u diweddarau a dylid cyfeirio atynt fel BERA, 2024).

Gwerthusiad – Sleid 18 o’r cyflwyniad PowerPoint arweiniad aseiniad – tua 500 o eiriau (atodiad SWOT)

Sesiynau medrwrch gyfeirio atynt:

- **S4** – ‘Ble ydw i’n dysgu? Ffocws ar gyd-destunau y tu allan i’r ysgol.’ Pa gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau wnaethoch chi eu trafod pan archwilioch chi’r prosiect ‘Fy Ysgol Gynradd yn yr Amgueddfa’, a phan gynllunioch eich trip eich hun? Cymhwyswch y ffordd hon o feddwl i’ch dadansoddiad SWOT.
- **S12 & 13** – ‘Beth yw’r cyfleoedd a’r rhwystrau i ymgysylltu ag ysgolion a’r gymuned?’ Canolbwyntiodd y sesiwn hon ar gyfleoedd a bygythiadau sy’n codi wrth i ysgolion a chymunedau geisio cydweithio. Sut cafodd y rhwystrau a gyflwynwyd yn y sesiwn hon eu goresgyn? Sut y gellir goresgyn rhwystrau tebyg yn eich cynnig?

Yn ddisgwyliedig: Crynowch eich syniadau ar y templed ‘Dadansoddiad SWOT’ (gellir ei lawrlwytho o’r deilsen ‘Gwybodaeth Asesu’ Moodle) yn y lle cyntaf. Dewiswch 2-3 phwynt i ymhelaethu arnynt yn eich gwerthusiad.

Casgliad – Sleid 19 o’r cyflwyniad PowerPoint arweiniad aseiniad – tua 200 o eiriau

Sesiynau medrwrch gyfeirio atynt:

- **S1** – ‘Cyflwyniad i’r Modiwl.’ Efallai cyfeirio nôl at amcanion modiwl a gyflwynwyd yn Sesiwn 1 ac sydd ar gael yn llawlyfr y modiwl. Cofiwch eich bod yn ceisio bodloni deilliannau’r modiwl yn ogystal â briff yr aseiniad.
- **S5** – ‘Ble ydw i’n addysgu? Ffocws ar ysgolion.’ Atgoffwch y darlennydd sut mae cynnig eich prosiect yn cefnogi ‘cwricwlwm hygyrch i bawb. Crynowch yr hyn y mae’n ei wneud i ddiwallu anghenion y dysgwyr, yr ysgol a’r gymuned. Pwysleiswch sut mae’n cefnogi egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol, a sut mae'r egwyddorion hyn yn sail i'ch cynnig prosiect.

Ar ddiwedd eich aseiniad, ar ol eich rhestr gyfeirnodau, mae’n rhaid i chi gynnwys:

1. Dadansoddiad SWOT (Gan mai atodiad yw hwn, nid yw’n rhan o’r cyfrif geiriau).